

CYFLEUSTERAU CHWARAEON CANOLFAN BRAILSFORD
TELERAU AC AMODAU AELODAETH

Wrth wneud cais am aelodaeth ("Aelodaeth" neu "Aelod") i ddefnyddio Cyfleusterau Chwaraeon Canolfan Brailsford (y "Cyfleuster") rydych chi ("Chi") yn cytuno i gadw at y Telerau a'r Amodau ("Telerau") hyn.

Cynhelir y cyfleuster gan Brifysgol Bangor (rhof elusen gofrestrdig 1141565) o Ffordd y Coleg, Bangor, Gwynedd LL57 2DG (y "Brifysgol" neu "Ni"). Mae'r Telerau hyn yn nodi'r cytundeb yn ei grynsyth rhyngom Ni a Chi yng nghyswllt eich Aelodaeth Chi o'r Cyfleuster, ac yn gytundeb cyfreithiol.

Gofalwch eich bod yn darllen a deall eich hawliau a'ch dyletswyddau Chi yn unol â'r Telerau hyn cyn cwblhau eich Aelodaeth, gan fod gennym Ni hawl i ddiddymu neu i atal eich aelodaeth Chi neu'ch defnydd ar y Cyfleuster os byddwch Chi'n torri'r Telerau hyn.

Mae'r Cyfleuster i'w ddefnyddio gan staff, myfyrwyr a chan aelodau'r cyhoedd.

I grynhai, mae'r Telerau hyn yn egluro eich rhwymedigaethau cytundebol Chi, sy'n cynnwys:

- a) Isafswm cyfnodau aelodaeth (Paragraff 1.16);
- b) Sut y gellwch Chi ganslo eich Aelodaeth (paragraff 5);
- c) Ymddygiad derbyniol o fewn y Cyfleuster (paragraff 4) a beth fydd yn digwydd os na fyddwch yn cyflawni'r safonau hynny (paragraff 6);
- d) Cyfrifoldeb dros eitemau personol (paragraffau 4.1.8 a 4.1.9);
- e) Atebolrwydd (paragraff 7).

1. AELODAETH

- 1.1 Er mwyn dod yn Aelod, mae'n ofynnol i Chi lenwi'r ffurflen gais swyddogol am aelodaeth, sydd ar gael o dderbynfa'r Cyfleuster, ac ar www.bangor.ac.uk/brailsford. Gennym ni y mae'r hawl yn gyfan gwbl i wrthod unrhyw gais am aelodaeth neu am adnewyddu aelodaeth.
- 1.2 At ddibenion adnabod, bydd angen eich llun arnom pan fyddwch yn ymaelodi. Bydd staff y Cyfleuster yn tynnu'r llun hwn yn ystod y broses o gofrestru aelodaeth neu, yn achos myfyrwyr neu staff y Brifysgol, byddwn yn cael llun o'ch cofnodion Chi, a gedwir gan wasanaethau canolog y Brifysgol.
- 1.3 Nid oes aelodaeth ar gael ond i bobl dros 16 oed. Rydym yn cadw'r hawl i ofyn am brawf o'ch dyddiad geni er mwyn gwirio hyn cyn trin unrhyw gais am aelodaeth. Rhaid cael caniatâd rhieni i bobl dan 18 oed gael Aelodaeth yn unol â Pholisi Amddiffyn Plant y Brifysgol. Mae copi o hwn ar gael o www.bangor.ac.uk/compliance-unit/ChildProtPol.php.cy
- 1.4 Rhaid ichi fynd i'r dderbynfa pan gyrhaeddwch. Gofynnir ichi ddangos eich cerdyn ar gyfer pob archeb/ sesiwn. Os na ddangoswch gerdyn Aelodaeth dilys, byddwn yn codi arnoch ffi rhywun nad yw'n aelod am yr ymweliad hwnnw.
- 1.5 Os byddwch yn colli neu'n niweidio eich cerdyn Aelodaeth, bydd yn ofynnol ichi dalu ffi weinyddol am gerdyn yn ei le.
- 1.6 Os byddwch yn colli eich cerdyn Aelodaeth neu os caiff ei ddwyn, rhaid ichi hysbysu'r dderbynfa yn y Cyfleuster ar unwaith ynglŷn â'r mater. Hyd nes y bydd y Cyfleuster yn cael hysbysiad, eich cyfrifoldeb Chi yw unrhyw archebion a wneir, neu os bydd rhywun yn dod i mewn heb awdurdod gan ddefnyddio eich cerdyn Aelodaeth Chi.
- 1.7 Nid yw cardiau aelodaeth yn drosglwyddadwy, ac ni ddylai neb ond y deiliad eu defnyddio. Rydym yn cadw'r hawl i gadw a/neu ddinistrio unrhyw gardiau Aelodaeth a ddefnyddir gan bobl heblaw Chi.

- 1.8 Rydym yn cadw'r hawl i ofyn am brawf adnabod oddi wrthych Chi, fel prawf o'ch categori, er enghraifft, fel aelod o staff y Brifysgol neu fel rhywun dros 60 oed.
- 1.9 Mae'n orfodol i holl ddefnyddwyr yr ystafelloedd ffitrwydd gael sesiwn ymgynefino. Staff proffesiynol sy'n darparu sesiynau ymgynefino, gyda'r bwriad o sicrhau bod y cyfarpar yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel. Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynglŷn â sut i weithio unrhyw gyfarpar yn y modd priodol, rhaid ichi ymgynghori ag aelod o'r staff cyn ei ddefnyddio.
- 1.10 Os byddwch yn archebu unrhyw sesiynau neu ddsbarthiadau, a heb eu canslo 24 awr cyn eu hamser cychwyn, codir y tâl lawn arnoch am y sesiwn/ dosbarth.
- 1.11 Ni chaiff aelodau archebu dosbarth neu sesiwn iddynt hwy eu hunain, nid i bobl eraill.
- 1.12 Caiff aelodau fynd i fwyafswm o dri (3) dosbarth neu sesiwn dilynol.
- 1.13 Ar adegau brig, mae gennym Ni hawl i gyfyngu eich defnydd Chi ar un darn o gyfarpar i ugain (20) munud.
- 1.14 Pan fyddwch yn gwneud cais am Aelodaeth, sylwch nad yw ad-daliadau i'w rhoi ond yn unol â pharagraff 5. Felly, os byddwch yn rhagweld y gall eich cwrs astudiaeth neu'ch gwaith gynnwys cyfnodau i ffwrdd o Fangor, rydym yn eich cynghori i brynu'r pecyn mwyaf addas a chost effeithiol i'ch anghenion, a all fod yn drefniant talu misol.
- 1.15 Os ydym yn credu'n rhesymol eich bod wedi torri'r Telerau hyn, gallwn wrthod mynediad ichi neu ofyn ichi adael y Cyfleuster. Ni chewch ad-daliad os gofynnir ichi adael y Cyfleuster yn yr amgylchiadau hynny, ac eithrio fel y nodir yn y Telerau hyn.
- 1.16 Yn amodol ar baragraff 5 a 1.18, bydd Aelodaeth y staff a'r cyhoedd yn para am gyfnod o **ddeuddeng (12) mis** neu, yn achos myfyrwyr, am gyfnod o **naw (9) mis** ("Aelodaeth Myfyrwyr"). Mae opsiynau aelodaeth yn amrywio o 12 mis ymlaen llaw, 9 mis ymlaen llaw (myfyrwyr Bangor yn unig) a thalu'n fisol. Ni fydd aelodaeth yn cael ei hadnewyddu'n awtomatig.
- 1.17 Mae manylion am oriau agor cyfredol a chyfleusterau'r Cyfleuster yn cael eu dangos yn y dderbynfa. Efallai y byddwn weithiau angen newid yr oriau agor neu'r cyfleusterau sydd ar gael. Os byddwn angen gwneud hyn byddwn, lle bo'n rhesymol bosibl, yn rhoi hysbysiadau yn y dderbynfa o leiaf 2 wythnos ymlaen llaw i'ch hysbysu am y newidiadau hyn. Os byddwn yn gwneud newid o bwys i'r oriau agor neu'r cyfleusterau sydd ar gael, gellwch ganslo eich Aelodaeth yn unol â chymal 5. Yn ogystal, byddwn yn rhoi ad-daliad i chi am unrhyw ran o'ch tâl Aelodaeth am y cyfnod ers i'r newid ddod i rym.
- 1.18 Bydd gan staff y dewis o dalu'n fisol drwy dynnu'r swm o'u cyflog, yn amodol ar delerau ac amodau'r Swyddfa Gyllid ar ddiidyniadau o gyflog. Os na fyddwch yn gyflogedig mwyach gan y Brifysgol (ac eithrio fel y nodir yng nghymal 5), rydych yn dal yn atebol i dalu gweddiill yr Aelodaeth 12 mis.

2. TÂL

- 2.1 Wrth lenwi'r ffurflen gais am Aelodaeth, rydych yn cytuno i gael eich rhwymo gan y Telerau hyn, ac yn cytuno i dalu holl ffioedd Aelodaeth y Cyfleuster a ffioedd neu daliadau eraill yn brydlon.
- 2.2 Gellwch gyflwyno taliadau am Aelodaeth mewn arian, trwy siec neu â cherdyn credyd. Gall y Cyfleuster o bryd i'w gilydd gynnig y dewis i dalu Aelodaeth drwy dynnu'r swm o gyflog (Staff yn unig) neu dalu ar-lein.
- 2.3 Yn ogystal â'r ffioedd Aelodaeth, gallwn hefyd godi ffioedd am ddsbarthiadau, hyfforddiant personol ac unrhyw wasanaethau eraill y byddom yn eu darparu o bryd i'w gilydd. Mae manylion am y ffioedd hynny ar gael o dderbynfa'r Cyfleuster. Bydd unrhyw ffioedd dyledus yn parhau'n daladwy hyd yn oed os byddwch Chi yn terfynu eich Aelodaeth.
- 2.4 Rydym yn adolygu'r ffioedd Aelodaeth a dosbarthiadau bob blwyddyn. Ar y cyfan, bydd unrhyw newidiadau i'r prisiau'n dod i rym ar 1 Awst bob blwyddyn. Bydd eich Aelodaeth yn parhau ar y gyfradd (yn amodol ar gymal 2.5) ac am yr hyd y

cytunwyd ar yr adeg y gwnaethom dderbyn eich cais am Aelodaeth. Bydd unrhyw adnewyddiadau ar y gyfradd a fydd mewn grym yn y Cyfleuster ar adeg yr adnewyddu.

- 2.5 Rydym yn cadw'r hawl i drosglwyddo unrhyw newidiadau a fo yng nghyfradd TAW i chi pan ddeuant i rym.

3. RHYBUDD YNGLŶN Â CHASGLU DATA

- 3.1 Byddwn yn casglu, gweinyddu a chadw copïau electronig a phapur o'ch gwybodaeth bersonol, megis enw, cyfeiriad, oed, manylion meddygol, er mwyn darparu'r gwasanaethau ichi yn unol â'r Telerau hyn, ac er mwyn cysylltu â chi ynglŷn â'ch Aelodaeth. Os dewiswch dderbyn gwybodaeth ychwanegol am farchnata o'r Cyfleuster a/neu o'r Brifysgol, ni fyddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol ond at y dibenion hynny y cytunwyd arnynt. Os dewiswch dalu trwy gerdyn credyd, ni fyddwn yn cadw manylion eich cerdyn credyd ond i brosesu eich taliad; wedyn, byddwn yn eu dinistrio. Fel y nodwyd yng nghymal 1.2 rydym yn cadw llun ohonoch ar ein system gyfrifiadurol er mwyn sicrhau bod eich cerdyn Aelodaeth yn cael ei ddefnyddio gennych Chi yn unig ac rydych yn cytuno i'ch llun gael ei ddefnyddio a'i gadw gennym Ni dros gyfnod eich Aelodaeth.
- 3.2 Yn amodol ar baragraff 3.4, pan ddaw eich Aelodaeth Chi i ben, trwy ei diddymu, ei dirwyn i ben neu fel arall, byddwn Ni'n dinistrio eich data personol yn unol â'r cyfnod cadw sydd wedi'i nodi yn Amserlen gydnabyddedig y Brifysgol ynglŷn â Chadw Cofnodion, y mae copi ohoni i'w gweld ar <http://www.bangor.ac.uk/compliance-nit/UniRetSched.php>
- 3.3 Eich cyfrifoldeb Chi yw hysbysu'r Cyfleuster am unrhyw newid a fo yn eich manylion personol, yn cynnwys cyfeiriad, rhif ffôn, e-bost ac unrhyw faterion a fo'n berthnasol i'ch iechyd, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain.
- 3.4 Rydym yn cadw'r hawl i gadw'ch data personol am gyhyd ag y bo angen er mwyn ymdrin ag unrhyw gŵynion neu gamau cyfreithiol ynglŷn â'ch Aelodaeth a/neu am unrhyw honiadau y bo unrhyw ddefnyddwyr eraill ar y Cyfleuster yn eu gwneud yn eich erbyn Chi.
- 3.5 Gellwch ofyn am gopi o'r wybodaeth yr ydym yn ei chadw amdanoch trwy gysylltu â Swyddog y Brifysgol dros Warchod Data ar e-bost, sef gwenan.hine@bangor.ac.uk neu drwy'r post, i'r Swyddfa Cynllunio a Llywodraethu, Ffordd y Coleg, Bangor, Gwynedd, LL57 2DG neu ar y ffon ar (01248) 382413.
- 3.6 Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth â thrydydd partïon, onid yw'n ofynnol inni drefnu bod eich gwybodaeth bersonol ar gael i drydydd partïon megis awdurdodau cyfreithiol neu reoleiddiol neu ymgynghorwyr proffesiynol.
- 3.7 Er diogelwch staff a defnyddwyr, defnyddir Teledu Cylch Cyfyng yn y Cyfleuster yn yr holl fannau cyhoeddus.
- 3.8 Yn achlysurol, efallai y byddwn yn tynnu lluniau at ddibenion hyrwyddo neu ar gyfer llyfrynnau, ond ni fyddwn yn tynnu eich llun Chi heb eich cydsyniad ymlaen llaw.

4. DEFNYDD DERBYNIOL

- 4.1 Er mwyn cadw amgylchedd diogel a phleserus i holl ddefnyddwyr y Cyfleuster, mae'n ofynnol i Aelodau gadw at y Telerau hyn. Mae Aelodau yn cytuno:-
- 4.1.1 i beidio ag yn ymddwyn yn y fath fodd fel eu bod yn creu perygl iddynt eu hunain nac i ddefnyddwyr eraill y Cyfleuster;
- 4.1.2 i beidio â chamddefnyddio neu niweidio'n fwriadol y cyfarpar a geir yn y Cyfleuster nac unrhyw ran o'r Cyfleuster ei hun;

- 4.1.3 i beidio ag ymddwyn yn dreisgar, yn anghwrtais nac yn fygythiol, nac mewn modd sy'n peri gofid, anesmwythyd neu aflonyddwch ar ddefnyddwyr eraill y Cyfleuster a/neu'r staff;
- 4.1.4 i beidio â defnyddio camerâu na dyfeisiau recordio personol yn y Cyfleuster;
- 4.1.5 i wisgo mewn modd sydd, ym marn y Brifysgol, yn briodol a gwisgo esgidiau priodol bob amser tra byddant yn y Cyfleuster.
- 4.1.6 i ddarllen yr hysbysiadau sydd i'w gweld yn y Cyfleuster a chydymffurfio â'u gofynion, yn benodol y rheiny sy'n berthnasol i unrhyw gyfarpar a ddefnyddir;
- 4.1.7 i beidio â defnyddio'r Cyfleuster tra byddant dan ddylanwad diod feddwol neu gyffuriau, nac i ddod ag alcohol neu gyffuriau i mewn i'r Cyfleuster; Rydym yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i unrhyw Aelod a fo'n ymddangos (yn ôl barn resymol yr Brifysgol) yn feddw, yn sâl neu sydd, am resymau eraill, yn methu defnyddio'r Cyfleusterau mewn modd diogel neu fedrus, neu'n methu dilyn cyfarwyddiadau a roddir gan y staff er eu diogelwch;
- 4.1.8 i gadw bagiau, dillad awyr agored ac eiddo personol yn y cypyrddau bach a ddarperir. Sylwch:- rhaid ichi wacáu'r holl gypyrddau bach ar ddiwedd pob dydd;
- 4.1.9 Caiff yr holl gypyrddau bach eu gwagio gyda'r nos gan staff Canolfan Brailsford a bydd eitemau a geir ynddynt yn cael eu cadw gan Ganolfan Brailsford am chwech wythnos cyn y ceir gwared arnynt.
- 4.1.10 i beidio â chymryd rhan mewn unrhyw hap-chwarae na betio anghyfreithlon yn y Cyfleustra nac annog neb arall i wneud hynny;
- 4.1.11 i beidio â dod ag anifeiliaid anwes (heblaw cŵn tywys) i mewn i'r Cyfleuster.
- 4.2 Ni chaniateir smygu y unlle o fewn y Cyfleuster.
- 4.3 Mae Wi-fi ar gael yn y Cyfleuster ar gyfer staff a myfyrwyr sydd â chyfrif bangor.ac.uk, a byddant yn ei ddefnyddio'n unol â Rheolau a Rheoliadau'r Brifysgol, fel y diwygir hwy o bryd i'r gilydd.

5. CANSLO

- 5.1 Mae gennych yr hawl i ganslo eich Aelodaeth:
 - 5.1.1 o fewn pedwar diwrnod ar ddeg (14) heb unrhyw reswm (yn achos Aelodaeth a wnaed ar-lein neu ar y ffôn). Mae manylion ynghylch sut y gellwch ganslo eich Aelodaeth yn ystod y cyfnod hwn o 14 diwrnod wedi'u nodi yng nghymal 5.6.
 - 5.1.2 Gellwch ganslo eich Aelodaeth ar unrhyw adeg drwy roi mis o rybudd ysgrifenedig i Reolwr Canolfan Brailsford yng nghyfeiriad y Cyfleuster. Bydd ad-dalu ffioedd Aelodaeth yn amodol ar baragraff 5.2.
- 5.2 Heblaw am amodau paragraffau 5.1.1, 5.3, 5.5, 5.6 a 5.7 ni chaiff ffioedd Aelodaeth eu had-dalu.
- 5.3 Byddwn yn ad-dalu ffioedd Aelodaeth:-
 - 5.3.1 os bydd Aelodau'n datblygu cyflwr meddygol difrifol neu angheuol sy'n eu hatal rhag defnyddio'r Cyfleuster. Bydd angen dangos prawf o'r cyflwr meddygol, megis tystysgrif gan feddyg, ac ad-delir unrhyw Daliadau Aelodaeth ar sail *pro rata* yn ôl y cyfnod yr Aelodaeth a fo'n weddill.
 - 5.3.2 yn achos Aelodau sydd â contract deuddeng (12) mis, ad-delir, ar sail *pro rata*, aelodaeth unrhyw fisoedd calendr cyfain a fo'n weddill (llai ffi weinyddol o £50);
 - 5.3.3 ar sail *pro rata* unrhyw fisoedd calendr cyfain sy'n weddill yn achos myfyriwr sy'n Aelod yn tynnu'n ôl o'r Brifysgol ac yn peidio â bod yn fyfyriwr cofrestredig yn y Brifysgol.

- 5.4 Mae'n bosibl y dewiswn ohirio eich Aelodaeth, os oes arnoch gyflwr meddygol sy'n eich atal rhag defnyddio'r Cyfleuster am gyfnod o dri (3) mis neu fwy. Bydd angen prawf o'r cyflwr meddygol, megis tystysgrif gan feddyg. Byddwn yn ychwanegu unrhyw gyfnodau y bo'ch Aelodaeth wedi'i hatal, er mwyn gohirio eich dyddiad adnewyddu nesaf. Sylwch – ni chaiff Aelod ohirio ei (h)aelodaeth ond unwaith o fewn unrhyw gyfnod o ddeuddeng (12) mis, a hynny am leiafswm o dri (3) mis a mwyafswm o ddeuddeng (12) mis.
- 5.5 Gellwch derfynu eich Aelodaeth os byddwn yn lleihau cyfleusterau neu oriau agor y Cyfleuster yn sylweddol, neu os byddwn yn cau'r Cyfleuster am gyfnod di-dor o 4 wythnos neu fwy ar y tro a byddwn yn ad-dalu unrhyw ran o'ch ffi Aelodaeth y byddwch wedi'i thalu ymlaen llaw ond sy'n ymwneud â'r cyfnod ar ôl terfynu. Os byddwn yn cau'r Cyfleuster yn annisgwyl, gellwch ymestyn eich Aelodaeth am bob diwrnod roedd y Cyfleuster wedi cau (nid yw hyn yn berthnasol i wyliau, gwyliau banc neu ddyddiau arferol eraill pan mae'r Cyfleuster wedi cau).
- 5.6 Daw'r hawl i ganslo yng nghymal 5.1.1 i ben 14 diwrnod ar ôl i'ch Aelodaeth ddechrau. Mae'n rhaid i chi hysbysu Rheolwr Canolfan Brailsford yng nghyfeiriad y Cyfleuster neu yn cancellation-brailsford@bangor.ac.uk o'ch bwriad i ganslo eich Aelodaeth a hynny mewn datganiad clir (ysgrifenedig). Gellwch ddefnyddio ffurflen ganslo'r Cyfleuster, sydd ar gael gan staff y dderbynfa yn y Cyfleuster, ond nid oes raid i chi ddefnyddio'r ffurflen hon. I ganslo erbyn yr amser canslo penodedig, mae'n ddigonol i chi anfon eich datganiad ynglŷn â defnyddio eich hawl i ganslo cyn i'r cyfnod canslo ddod i ben. Fe'ch cynghorir i gael prawf postio os byddwch yn defnyddio'r Post Brenhinol. Os dymunwch e-bostio eich rhybudd canslo, mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost cancellation-brailsford@bangor.ac.uk
- 5.7 Os byddwch yn canslo eich Aelodaeth yn unol â chymalau 5.1.1 a 5.6 byddwn yn ad-dalu i Chi yr holl daliadau a dderbyniwyd oddi wrthy'ch Chi yn ymwneud â'r gyfryw Aelodaeth. Os byddwch wedi defnyddio'r Cyfleuster yn ystod y cyfnod canslo 14 diwrnod, byddwch yn talu i Ni swm sy'n cyfateb i'ch defnydd Chi o'r Cyfleuster, yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i unrhyw ddsbarthiadau, hyfforddiant personol neu wasanaethau eraill a ddefnyddiwyd nes i Chi roi gwybod i Nii am eich bwriad i ganslo eich Aelodaeth. Caiff y cyfryw gyfraddau eu cyfrifo'n unol â chyfraddau safonol y Cyfleuster i rai nad ydynt yn aelodau ac mae manylion am y rhain ar gael o ddesg y dderbynfa yn y Cyfleuster.

6. DIDDYMU A/NEU ATAL AELODAETH GAN Y BRIFYSGOL

- 6.1 Gallwn ddiddymu eich Aelodaeth yn ddirybudd dan yr amgylchiadau canlynol:-
- 6.1.1 Os bydd y Brifysgol yn rhesymol o'r farn eich bod wedi torri'r Telerau hyn mewn ffordd ddifrifol neu gyson; neu
- 6.1.2 os na fyddwch wedi talu taliadau Aelodaeth neu ffioedd eraill 21 niwrnod ar ôl y dyddiad y maent yn daladwy, ac nad ydych yn cyflwyno'r taliad hwnnw o fewn 7 niwrnod ichi gael rhybudd gan y Brifysgol; neu
- 6.1.3 os ydych Chi wedi rhoi manylion i ni y gwyddoch eu bod yn rhai ffug neu gamarweiniol ac y byddai'r cyfryw ddatganiad ffug wedi effeithio'n rhesymol ar ein penderfyniad i ganiatáu Aelodaeth i Chi yng nghymal 1.1
- 6.2 Dan rai amgylchiadau, gall peidio â chydymffurfio â'r Telerau hyn arwain at gamau cyfreithiol neu sifil. Lle bo'r Brifysgol o'r farn ei bod yn bosibl fod trosedd wedi digwydd, bydd y Brifysgol yn cyfeirio'r mater at yr Heddlu, ac ni fydd gan y Brifysgol unrhyw atebolrwydd i'r Aelod lle bo'r Brifysgol yn cymryd rhagofalon o'r fath.
- 6.3 Yng nghyswllt Aelodau sy'n staff neu'n fyfyrwyr yn y Brifysgol, os byddant yn anufuddhau i'r Telerau hyn, bydd y Brifysgol yn barnu bod y mater yn un difrifol, a gall gymryd camau yn unol â'i Threfn Ddisgyblu.
- 6.4 Pan ddiddymir Aelodaeth am anufudd-dod i'r Telerau hyn, ni chaniateir i aelod fynd i mewn i'r Cyfleuster na'i ddefnyddio.

- 6.5 Pan ddiddymir Aelodaeth dan gymal 6, rydym yn cadw'r hawl i gadw cyfran o'r arian a dalwyd dan y Telerau hyn i dalu am unrhyw gostau neu dreuliau rhesymol a gafwyd.
- 6.6 Os bydd aelod yn colli mwy na 3 dosbarth y mis ac na fydd yn hysbysu'r ganolfan o ganslo unai dros y ffôn neu e-bost ddwy awr cyn y dosbarth, bydd y ganolfan yn gorfodi gwaharddiad wythnos ar bob dosbarth ymarfer. Os oes gan yr aelod aelodaeth 'gampfa a dosbarthiadau', gallant gael mynediad i'r gampfa ond ni allant archebu unrhyw ddsbarthiadau ymarfer dros y cyfnod gwaharddedig

7. ATEBOLRWYDD

- 7.1 Cyn dechrau defnyddio eich Aelodaeth, rhaid ichi lenwi'r holiadur sgrinio iechyd (HSQ); trwy lenwi'r HSQ, rydych yn gwarantu i Ni nad ydych yn dioddef gan unrhyw gyflwr sy'n wybyddus ichi nac yn cael triniaeth a fyddai'n eich atal rhag gwneud ymarfer corff perthnasol.
- 7.2 Ar ben hynny, rydych yn cytuno eich bod yn rhoi sicrwydd ac yn ein hysbysu, bob tro y defnyddiwch y Cyfleuster, nad oes arnoch unrhyw gyflyrau meddygol sy'n wybyddus ichi a fyddai'n eich atal rhag cymryd rhan yn y gweithgaredd y bwriadwch gyfranogi ynddo, ac na fydd y math hwnnw o ymarfer yn niweidiol i'ch iechyd. Os ydych yn ansicr, eich cyfrifoldeb Chi a neb arall yw ymgynghori â meddyg.
- 7.3 Mae'r holl gyfarpar wedi'u cynllunio a'u brofi fel ee bod yn ddiogel i'w defnyddio'n briodol. Er eich diogelwch personol, sicrhewch eich bod yn cael cyfarwyddyd llawn cyn cychwyn ar eich sesiwn ymarfer cyntaf, a'ch bod wedyn yn dilyn argymhellion ac unrhyw gyngor a gewch wedyn.
- 7.4 Byddwch yn agored i dalu am unrhyw niwed a achoswch i gyfarpar neu i'r Cyfleuster, boed hynny trwy esgeulustod neu'n fwriadol.
- 7.5 Yn amodol ar gymal 7.7, ni fyddwn Ni'n atebol am y materion canlynol:-
- 7.5.1 gwasanaethau a gynigir i Chi gan unrhyw drydydd partion nad ydynt wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gennym Ni, yn cynnwys hyfforddwyr proffesiynol. Mae hyfforddwyr personol sy'n gweithio yn y Cyfleuster yn hunan-gyflogedig. Mae unrhyw hyfforddiant a roddant i Chi yn gontract rhwng yr hyfforddwr personol a Chi, ac nid â Ni. Nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am dorcytundeb nac am esgeulustod a achosir gan Hyfforddwr Proffesiynol.
- 7.5.2 unrhyw gollodion o ran incwm neu refeniw, elw, busnes, cynilion a ragwelwyd, colled economaidd bur neu ddata a gollir.
- 7.6 Mae ein hatebolrwydd i dalu iawndal i chi (mewn achos o ddifrod neu gollod ac eithrio marwolaeth neu anaf personol neu gamliwiad twyllodrus) yn gyfyngedig i swm rhesymol gan roi ystyriaeth i ffactorau megis a achoswyd y difrod gan weithred esgeulus neu beidio â gweithredu gennym ni neu gennych Chi neu gan unrhyw drydydd parti.
- 7.7 Nid oes dim yn y Telerau hyn yn eithrio nac yn cyfyngu atebolrwydd y Brifysgol o ran marwolaeth neu anaf personol a achosir gan esgeulustod y Brifysgol neu o ran camliwiad twyllodrus.

8. FORCE MAJEURE

- 8.1 Nid yw'r Brifysgol yn gwarantu y bydd y Cyfleuster ar gael yn barhaus, ac mae'n cadw'r hawl i ddileu dosbarthiadau neu i gau ystafelloedd, dros dro neu'n barhaol, ar unrhyw adeg, gyda neu heb rybudd.
- 8.2 Ar ben hynny, fel y gallwn ddarparu cyfleusterau i'r safonau uchaf, rydych yn cydnabod y gall fod angen inni gau rhannau o'r Cyfleuster neu'r Cyfleuster yn ei gryswth dros dro, er mwyn gwneud gwaith addurno, glanhau, atgyweirio hanfodol neu waith cynnal ar gyfarpar ac ar gyfer digwyddiadau arbennig, ac y gall hyn darfu ar y ddarpariaeth o wasanaethau i Chi, ac rydych yn cytuno na fydd unrhyw darfu

- o'r fath yn golygu ein bod yn torri ein cytundeb i Chi. (Gweler canslo/ymestyn eich Aelodaeth yn unol â chymal 5.5)
- 8.3 Gall y Cyfleuster fod ar gau ar Wyliau Banc ac ar y diwrnodau arferol y mae'r Brifysgol ar gau. Am restr ddiweddar o amseroedd a dyddiadau agor, cysylltwch â'r dderbynfa o fewn y Cyfleuster.
 - 8.4 Ni fydd y Brifysgol yn atebol i Chi o ganlyniad i unrhyw oedi neu am beidio â chyflawni ei dyletswyddau yn unol â'r Telerau hyn o ganlyniad i ddigwyddiad y tu hwnt i'n rheolaeth (digwyddiad *Force Majeure*).
 - 8.5 At ddibenion y Telerau hyn, mae Digwyddiad *Force Majeure* yn golygu digwyddiad y tu hwnt i reolaeth resymol y Brifysgol, yn cynnwys yr achosion canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:- streiciau, cloi allan neu anghydfodau diwydiannol eraill, methiant gwasanaeth cyhoeddus; anfodion naturiol, yn cynnwys llifogydd neu eira; rhyfel, terfysg, cynnwrf sifil, difrod maleisus, pandemig neu fygythiad i iechyd, cydymffurfio ag unrhyw gyfraith neu orchymyn llywodraethol, rheol, rheoliad neu gyfarwyddyd, damwain, methiant offer neu beiriannau, tân, storm, neu fethiant cyflenwyr neu gontractwyr.
 - 8.6 Os bydd y Digwyddiad *Force Majeure* yn ein hatal Ni rhag darparu unrhyw wasanaethau, neu rhag agor y Cyfleuster am gyfnod o fwy na 90 o ddiwrnodau, efallai y bydd gennym hawl, heb gyfyngu ar unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill, i derfynu ein cytundeb â Chi ar unwaith, trwy gyflwyno rhybudd ysgrifenedig i Chi. Mae gennych Chi hawl hefyd i derfynu/ymestyn eich cytundeb â Ni yn unol â chymal 5.5

9. CYFFREDINOL

- 9.1 Ar wahân i Ni a Chi, ni fwriedir i unrhyw rai o'r Telerau hyn fod yn weithredadwy trwy rinwedd Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 199 gan unrhyw drydydd parti.
- 9.2 Dehonglir y Telerau hyn yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr, ac mae'r partïon yn cytuno i fod yn ddarostyngedig i awdurdod cyfyngedig Llysoedd Cymru a Lloegr.
- 9.3 Mae'r Telerau hyn yn ymwneud yn benodol â'ch Aelodaeth o'r Cyfleuster. Ni fwriedir iddynt ddisodli polisiau eraill, oni nodir hynny'n benodol.
- 9.4 Y Telerau hyn yw'r cytundeb yn ei gyfanrwydd rhyngoch Chi a Ni yng nghyswllt eich Aelodaeth.
- 9.5 Os daw unrhyw rai o ddarpariaethau'r Telerau hyn, yn gyfan neu'n rhannol, yn annyls neu'n amhosibl eu gweithredu, ni fydd hynny'n effeithio ar ddarpariaethau eraill y Telerau hyn nac ar weddill y ddarpariaeth sy'n rhannol annyls neu'n amhosibl ei gweithredu.
- 9.6 Ni ddehonglir bod unrhyw fethiant ar ein ran ni i orfodi unrhyw rai o'n hawliau ni, am unrhyw gyfnod ac am ba reswm bynnag, yn diddymu'r hawliau hynny; ni fernir ychwaith fod unrhyw fethiant i adnabod neu i weithredu ar anufudd-dod gennych Chi i'r Telerau yn gadarnhad gennym ni fod eich ymddygiad yn dderbyniol.
- 9.7 Cawn ddynodi neu drosglwyddo budd y Telerau hyn a'n dyletswyddau o danynt i unrhyw endid cyfreithiol arall ar unrhyw adeg heb roi rhybudd i Chi am Delerau nac amodau.

10. CWYNION

- 10.1 Os oes angen unrhyw eglurhad arnoch ynglŷn ag unrhyw ddarpariaeth o fewn y Telerau hyn, dylech gysylltu, yn y lle cyntaf, â Rheolwr Canolfan Brailsford yn brailsford@bangor.ac.uk neu 01248 382571 neu â Chanolfan Chwaraeon Brailsford, Prifysgol Bangor, Ffordd Ffriddoedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2EH.
- 10.2 Os hoffech gwyno am unrhyw ddarpariaeth a geir yn y Telerau hyn a/ neu eu gweithrediad, gellwch wneud hyn yn unol â threfn y Brifysgol ynglŷn â chwynion, sydd i'w gweld ar <http://www.bangor.ac.uk/corporate/complaints.php.cy>

C001674

--diwedd--